


Taflen ffeithiau: Ardal Chwilio E

Mae'r daflen ffeithiau ar gyfer yr Ardal Chwilio hon yn grynodedb o'r wybodaeth a roddir yn y 'Trosolwg o Ardaloedd Chwilio yn Nyfroedd Cymru', a dylid cyfeirio at y trosolwg hwn i weld rhagor o wybodaeth a chyfiawnhad. Mae Cwestiynau Cyffredin a'r Ddogfen Brosesau sydd ar gael ar wefan y prosiect yn rhoi rhagor o gyd-destun.



Ardal Chwilio	Ardal Chwilio E
Môr Rhanbarthol	Môr Iwerddon a'r Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd
Lleoliad cyffredinol	I'r gogledd ac i'r gorllewin o Sir Benfro, gan rychwantu'r ffin 12 milltir fôr
Maint	880km ²
Dyfroedd y glannau/y môr mawr	Dyfroedd y glannau a dyfroedd y môr mawr ¹
Disgrifiad cryno	Mae'r ardal yn cynnwys gwaddod bras islanw a mosaig o waddod bras islanw a gwaddod cymysg islanw yn bennaf, gydag ardal fach o dywod islanw tuag at y canol. Mae dau gofnod o gocos mawr a chofnod o gynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn yn y matrices o waddod bras islanw a gwaddod cymysg islanw o fewn rhanbarth y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd yn yr ardal

¹ Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a therfyn 12 milltir fôr moroedd tiriogaethol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng terfyn 12 milltir fôr moroedd tiriogaethol a'r llinell ganol.





Nodwedd Ddiffygiol	Cyfiawnhad
Gwaddod bras islanw	Cyfleoedd i fynd i'r afael yn rhannol â'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon Cyfleoedd i fynd i'r afael yn llawn â'r diffygion yn rhanbarth y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd
Gwaddod cymysg islanw	Cyfleoedd i fynd i'r afael yn rhannol â'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon
Tywod islanw	Cyfleoedd i fynd i'r afael yn llawn â'r diffyg yn rhanbarth y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd
Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn	Cyfleoedd i fynd i'r afael yn llawn â'r diffyg yn rhanbarth y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd
Y Gocosen Fawr	Cyfleoedd i fynd i'r afael yn llawn â'r diffyg yn rhanbarth y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd

Cyfiawnhad: Parthau dyfnder

Mae Ardal Chwilio E yn nyfroedd y glannau ac yn nyfroedd y môr mawr, sy'n helpu i sicrhau bod yr egwyddor cysylltedd yn cael ei bodloni. Ym Môr Iwerddon mae bodlonir presenoldeb am gwaddod bras islanw a gwaddod cymysg islanw. Yn y Sianel Orllewinol a'r Môr Celtaidd mae bodlonir presenoldeb am gwaddod bras islanw a thywod islanw.

Gweithgareddau o fewn Ardal Chwilio E:

- Piblinellau Olew a Nwy
- Gweithgareddau pysgota dyfnforol (llongau 12m a mwy)
- Diddordeb sectoraidd wedi'i gofrestru mewn perthynas â chytundeb arfordirol

Gwyddys bod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal (e.e. pysgota â chewyll a physgota â chychod siarter). Nid oes gennym ddata dibynadwy, diweddar i'w cynnwys ar hyn o bryd ac mae angen trafodaethau pellach i nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Beth yw Ardaloedd Chwilio?

Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi gweithio gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Prosiect i Gwblhau'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i nodi Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru. d yw canolbwyntio ar ardaloedd allweddol a allai fynd i'r afael â diffygion y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru. Fel y dangosir yn y broses isod, mae Ardaloedd Chwilio yn cael eu nodi o fewn Ardaloedd Chwilio Eang. Wedyn bydd Parthau Cadwraeth Morol posibl yn cael eu nodi o'r Ardaloedd Chwilio. **Mae'r Ardaloedd Archwilio yn fwy nag sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffyg i ganiatáu i nifer o opsiynau gael eu datblygu a'u mireinio'n ddiweddarach yn y broses.** Gweler y Ddogfen Brosesau a'r Trosolwg o Ardaloedd Chwilio yn Nyfroedd Cymru i gael rhagor o wybodaeth (ar gael ar wefan y prosiect).

